Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Menter a Busnes

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Iau, 20 Hydref 2011**

Amser:
**09:00**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:

**Siân Phipps**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8582
enterprise.committee@wales.gov.uk

## Agenda

**Cyfarfod Anffurfiol (9:00-10:00)**

### 1. Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

### 2. Cynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-13: Sesiwn i graffu ar waith Gweinidog (10:00 - 11:00) (Tudalennau 1 - 9)

Carl Sargeant, Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau

### 3. Papurau i'w nodi (Tudalennau 10 - 15)

EBC(4)-07-11 Papur 2

Cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-2013: Tystiolaeth gan Alun Davies

EBC(4)-07-11 Papur 3

Y Pwyllgor Menter a Busnes: Grwp Gorchwyl a Gorffen ar Gaffael

### 4. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

### 5. Cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-2013 : Trafod yr Adroddiad Drafft

**Y Pwyllgor Menter a Busnes**

**Dyddiad:** **20 Hydref 2011**

**Amser:** **10:00am hyd 11:00am**

**Teitl:** **Papur tystiolaeth - Llywodraeth Leol a Chymunedau, Dyraniadau'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer Trafnidiaeth 2012-13**

## 1. Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn rhoi sylwadau a gwybodaeth i'r Pwyllgor am y cynigion cyllidebol ar gyfer y rhaglenni Llywodraeth Leol a Chymunedau i'r dyfodol, fel y'u hamlinellir yn y Gyllideb Ddrafft a osodwyd ar 4 Hydref 2011. Mae'n ymdrin â'r meysydd hynny sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Menter a Busnes, sef Trafnidiaeth.

## 2. Cefndir

O gymharu â'r cynlluniau dangosol ar gyfer 2012-13 a gyhoeddwyd yng Nghyllideb Derfynol 2011-12 (fel y'u hailddatganwyd yn seiliedig ar y strwythur newydd yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2011-12), mae dyraniad y Gyllideb Drafnidiaeth o fewn cyfanswm y dyraniad MEG Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi gostwng £ 61.4m yn 2012-13 a £ 61.4m yn 2013-14. Mae'r cynllun dangosol ar gyfer 2014-15, a gyhoeddir am y tro cyntaf, £0.7m yn fwy nag yn 2013-14. Daw'r newidiadau hyn o ganlyniad i ostyngiad mewn cyllidebau nad ydynt yn arian parod, sy'n cael ei egluro yn nes ymlaen yn y papur hwn, a dyraniad ychwanegol yn 2014-15 o ran Tocynnau Teithio Rhatach.

Mae'r tabl ariannol cryno canlynol yn dangos yr effaith gyffredinol ar y gyllideb Drafnidiaeth gyda chyllideb sylfaenol y Terfyn Gwariant Adrannol (DEL). Nid yw hyn yn cynnwys Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) sydd y tu allan i DEL Llywodraeth Cymru. Mae'r tabl hefyd yn dangos y newid i'r gyllideb yn ariannol mewn £000 ac yn ganrannol, o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a'r newid ariannol mewn £000 o gymharu â'r gyllideb flaenorol (mewn llythrennau italig).

**Tablau Ariannol Cryno:**

**Trafnidiaeth**

£000

| | **2011-12** | **2012-13** | **2013-14** | **2014-15** |
|---|---|---|---|---|
| DEL Refeniw | 436,263* | 432,729 | 434,830 | 435,571 |
| *Newid mewn £000 o Gymharu â'r Cynllun* | | *(61,419)* | *(61,419)* | *741* |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| *Blaenorol* | | | | |
| DEL Cyfalaf | 234,397 | 218,023 | 194,349 | 194,349 |
| *Newid mewn £000 o Gymharu â'r Cynllun Blaenorol* | | *0* | *0* | *0* |
| Cyllideb Sylfaenol y DEL | 670,660 | 650,752 | 629,179 | 629,920 |
| *Newid mewn £000 o Gymharu â'r Cynllun Blaenorol* | | *(61,419)* | *(61,419)* | *741* |

*** Fel y'i hailddatganwyd yn y Gyllideb Atodol Gyntaf**

Ceir dadansoddiad o'r gyllideb sylfaenol a'r newidiadau arfaethedig hyd at lefel y Camau Gweithredu yn Atodiad A.

**3. Trosolwg o'r Gyllideb**

Mae trafnidiaeth yn faes sy'n galluogi sawl agwedd o'r economi yng Nghymru. O fewn maes trafnidiaeth ein nod yw cefnogi cymdeithas fodern sy'n cynnwys lefelau uchel o symudedd. Mae'r rhwydwaith trafnidiaeth yn gwneud cyfraniad hanfodol at leihau tlodi drwy gefnogi twf economaidd, cysylltu pobl â swyddi, symud cynnyrch i farchnadoedd a chefnogi masnach ddomestig a rhyngwladol; a thrwy hynny yn helpu i hyrwyddo mwy o gynhwysiant cymdeithasol a sicrhau bod cymunedau'n gynaliadwy.

Fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft, dyrannwyd £0.7m yn ychwanegol yn 2014-15 **ar gyfer teithiau bws am ddim i bensiynwyr a phobl anabl a'u gofalwyr.**

Y newid mawr arall i'r dyraniadau Refeniw Trafnidiaeth yw bod y gyllideb Drafnidiaeth nad yw'n arian parod yn gostwng £61.5m o 2012-13 ymlaen. Mae'r gyllideb hon yn darparu ar gyfer dibrisiant y rhwydwaith cefnffyrdd a'r amhariad arni. Er y gall fod yna gryn dipyn o amrywiaeth yn y taliadau yn erbyn y gyllideb hon, ar sail y perfformiad alldro blaenorol cytunwyd y bydd y gyllideb yn aros yn ddigyfnewid ar lefelau 2011-12 o £108.7m. Bydd adolygiadau parhaus o'r tueddiadau ym mhrisiad a thaliadau dibrisiant y cefnffyrdd yn parhau i lywio lefel y ddarpariaeth nad yw'n arian parod fydd yn ofynnol i'r dyfodol.

Yn olaf, mae'r dyraniad Refeniw Trafnidiaeth o 2012-13 ymlaen hefyd yn cynnwys £0.130m atodol yn sgil trosglwyddo cyllid SUSTRANS o faes yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy.

Mae proffiliau'r cyllidebau o fewn maes Trafnidiaeth wedi'u haddasu. Gan fod y cyllidebau hyn yn ymwneud â darpariaeth uniongyrchol, yn ogystal â rheoli cynlluniau a phrosiectau amrywiol megis Adeiladu Ffyrdd a Thocynnau Teithio Rhatach, bu'n rhaid newid proffiliau'r ddarpariaeth a'r galw. Mae'r newidiadau i'r dyraniadau refeniw ar lefel Camau Gweithredu yn adlewyrchu'r

amcangyfrifon diwygiedig ar gyfer gweithgareddau sy'n ymateb i'r galw, megis Hawliadau Trydydd Parti, a diwygiadau i'r cydbwysedd refeniw / cyfalaf o fewn y Grant Diogelwch Ffyrdd.

Bydd y cyllidebau cyfalaf ar gyfer Trafnidiaeth yn parhau i fod yn gyfyngedig, gyda gostyngiadau o gymharu â lefelau 2011-12 yn unol â'r cynlluniau a gyhoeddwyd yn flaenorol. Mae'r newidiadau i'r dyraniadau cyfalaf ar lefel Camau Gweithredu yn deillio o addasu prosiectau rheilffyrdd mawr, ac addasu costau adeiladu cynlluniau ffyrdd.

**4. Y Gronfa Cyfalaf a Gedwir yn Ganolog**

Mae'r ceisiadau am gyllid cyfalaf ychwanegol yng Ngham 1 y Gronfa Cyfalaf a Gedwir yn Ganolog wedi'u cymeradwyo. Bydd y rhain yn werth cyfanswm o £14.2m dros y cyfnod 2011-12 i 2012-13. Y prosiectau a gymeradwywyd yw Gwelliant A470 Maes yr Helmau i Cross Foxes (£5.2m), A470 Gelligemlyn (£6.0m), a gwelliannau i'r seilwaith rheilffyrdd ar rwydwaith Cymoedd Caerdydd (£2.96m). Gwneir y dyraniadau ar gyfer y rhain drwy broses y Gyllideb Atodol.

Rydym yn trafod camau nesaf proses y Gronfa Cyfalaf a Gedwir yn Ganolog gyda'r tîm Buddsoddi Strategol.

Mae pwyslais y cymorth ar gyfer ffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus, o ran y gyllideb sydd ar gael, yn parhau i fod ar drafnidiaeth gyhoeddus. Bydd yn parhau i godi o 61% yn 2011/12 i 64% 2012/13 (heb gynnwys adnoddau nad ydynt yn arian parod a benthyciadau â chymorth). Bydd ymarfer blaenoriaethu y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol, a drafodir yn ddiweddarach yn y papur hwn, yn pennu beth fydd y cydbwysedd hwn yn y dyfodol.

**5. Y Rhaglen Lywodraethu**

Mae'r blaenoriaethau tymor byr a hirdymor ar gyfer Trafnidiaeth yn cynnwys y canlynol:

• Blaenoriaethu'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol;
• Achosion busnes ar gyfer trydaneiddio'r rheilffordd i Abertawe a Thrydaneiddio Rheilffyrdd y Cymoedd;
• Parhau â'r cynllun Teithio Rhatach ac ymestyn y cynllun i gynnwys cyn-filwyr a anafwyd yn ddifrifol;
• Deddfwriaeth yn y maes Cerdded a Beicio.

<u>Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol</u>

Nid yw'r Gyllideb Ddrafft yn adlewyrchu effaith bosibl blaenoriaethau'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol a gyhoeddir yn ddiweddarach eleni. Mae gwaith ar y gweill i flaenoriaethu ymyriadau yn y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol er mwyn sicrhau bod y cyllid trafnidiaeth presennol yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol a bod lefel yr adnoddau yn gwella. Mae'r ymarfer blaenoriaethu yn

ceisio sicrhau mwy o gydweithio ag awdurdodau lleol, a rhyngddynt. Pan wneir penderfyniadau buddsoddi i'r dyfodol, rhoddir blaenoriaeth i sicrhau mwy o symudedd a hwyluso datblygiad economaidd a chymdeithasol. Bydd ymyriadau yn cael eu hystyried ar sail eu cyfraniad at wella capasiti a dibynadwyedd y prif goridorau strategol Traws-Ewropeaidd o'r dwyrain i'r gorllewin yng Nghymru.

Cyllido Rheilffyrdd

Rhennir y ddarpariaeth ar gyfer Cyllid Rheilffyrdd yn y cyfnod 2012/13 - 2014/15 rhwng darparu gwasanaethau a gwella seilwaith y rhwydwaith fel a ganlyn

£000

| | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|
| Darparu Gwasanaethau | 172,371 | 171,579 | 171,579 |
| Seilwaith y Rhwydwaith | 47,142 | 27,426 | 27,426 |

Mae proffil Seilwaith y Rhwydwaith yn adlewyrchu proffiliau'r prosiectau arfaethedig gan gynnwys y buddsoddiad De i'r Gogledd sylweddol sydd ar y gweill ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod gan Gymru system reilffyrdd fodern ac effeithlon. Bydd trydaneiddio rheilffyrdd yng Nghymru yn allweddol i hyn ac rydym yn cydweithio'n agos â'r Adran Drafnidiaeth (DfT) i adolygu'r achos busnes dros drydaneiddio yr holl ffordd i Abertawe, yn ogystal â datblygu'r achos busnes dros Drydaneiddio Rheilffyrdd y Cymoedd. Mae Trafnidiaeth hefyd yn edrych ar sut orau i fwrw ymlaen â'r ymrwymiad i fynd ar drywydd datganoli mwy o benderfyniadau i Gymru, er mwyn sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru fwy o ddylanwad dros y rheilffyrdd yng Nghymru, ac atebolrwydd amdanynt. Mae'r datblygiadau allweddol hyn yn ymwneud â pholisi, felly ni fydd yna unrhyw oblygiadau o ran gwariant o fewn cyfnod y Gyllideb hon.

Bydd y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol hefyd yn ymdrin ag elfennau o'r gweithgarwch rheilffyrdd, a bydd canlyniadau proses flaenoriaethu'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol yn dylanwadu ar union gydbwysedd y cyllid.

Tocynnau Teithio Rhatach

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i barhau â'r cynllun Tocynnau Teithio Rhatach. Cytunwyd ar becyn cyllid tair blynedd ar Docynnau Teithio Rhatach yn dilyn trafodaethau gydag awdurdodau lleol a'r Cydffederasiwn Cludiant Teithwyr, gyda chyfraniad y gyllideb Drafnidiaeth wedi'i gapio ar £59.4m yn 2011-12, a £62.9m yn 2012-13 a 2013-14. Caiff y cydbwysedd rhwng cyllid cyfalaf a refeniw o fewn y Gyllideb ei bennu yn ystod y flwyddyn, ar sail y galw am y cynllun a'i weithrediad. Mae hyn yn cynnwys cytundeb i ymestyn y cynllun i gyn-filwyr a anafwyd yn ddifrifol.

Cyhoeddwyd yn ddiweddar y byddai'r Cynllun Tocynnau Trên Rhatach yn

parhau ar gyfer 2011/12 a 2012/13. Mae costau'r cynllun wedi'u cynnwys yn y cynlluniau cyllideb hyn.

Disgwylir i'r Fenter Tocynnau Teithio Rhatach ar Drafnidiaeth Gymunedol ddod i ben ym mis Mawrth 2012, a bydd unrhyw gyllid ar gyfer y cynllun hwn yn y dyfodol yn amodol ar flaenoriaethau'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol.

Deddfwriaeth Cerdded a Beicio

Rydym wedi ymrwymo, ynghyd â'n partneriaid, i gefnogi cerdded a beicio yng Nghymru. Mae newid ymddygiad yn ganolog i gyflawni'r ymrwymiad hwn fel bod mwy o bobl, o bob oed, yn cerdded a beicio yn fwy aml. Rhaid i ni sicrhau bod ein polisïau, ein deddfwriaeth, ein canllawiau a'n seilwaith yn cefnogi hyn. Fel arall, ni fydd y newid ymddygiadol angenrheidiol yn digwydd ac ni fyddwn yn gallu darparu'r manteision i gymdeithas yn gyffredinol, o ran ffyrdd o fyw iachach a'n heffaith ar yr amgylchedd.

Bydd y Mesur Priffyrdd a Thrafnidiaeth (Llwybrau Beicio) yn creu sylfaen deddfwriaethol mwy cadarn, a fydd yn sicrhau y gall awdurdodau lleol ddarparu trafnidiaeth amgen wirioneddol, wedi'i hintegreiddio â dulliau trafnidiaeth eraill ac sy'n briodol ar gyfer y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

Bydd angen i ni gynllunio ein buddsoddiad i ganolbwyntio ar ddarparu cyfleoedd diogel a deniadol i bobl feicio os ydym am i'n trefi a'n dinasoedd gystadlu yn rhyngwladol.

£5m yw lefel gyfredol y cyllid ar gyfer gweithredu cynlluniau cerdded a beicio Llwybrau Diogel mewn Cymunedau. Mae'r cymorth ar gyfer Cerdded a Beicio yn cael ei ystyried fel rhan o broses flaenoriaethu y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol.

Ni fyddwn yn rhoi pwysau deddfwriaethol gormodol ar awdurdodau lleol heb sicrhau bod cefnogaeth briodol ar gael wrth gyflwyno cynlluniau yn ogystal â chyllid i helpu i gyflawni a chynnal y cynlluniau hyn.

Canolfannau Teithio Cynaliadwy

Bydd y cyllid ar gyfer Canolfannau Teithio Cynaliadwy yn 2011-12 yn £4.5m o arian cyfalaf a £1.5m o arian refeniw. Bydd lefelau cyllid y dyfodol yn amodol ar ystyriaethau blaenoriaethu y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol.

## 6. Asesiadau o'r Effaith

Wrth bennu dyraniadau'r gyllideb, ystyriwyd yn ofalus effaith y newidiadau ar gydraddoldebau. Fel rhan o broses gyllideb y llynedd, cynhaliwyd cryn dipyn o waith i asesu effaith y cynlluniau a gyhoeddwyd gennym ar gydraddoldeb. Nid yw'r prif dybiaethau sy'n sail i'r dyraniadau eleni wedi newid ers cynlluniau'r llynedd. Mae'r cynnydd mewn dyraniadau ar gyfer blaenoriaethau megis y

**teithiau bws am ddim i bensiynwyr a phobl anabl a'u gofalwyr** yn 2014-15 hefyd yn tanlinellu ein hymrwymiad i'r agenda cydraddoldeb. Cynhaliwyd Asesiad Effaith Cydraddoldebau sylweddol o'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol fel rhan o'r broses o'i ddatblygu ac mae hwn yn parhau i fod yn berthnasol ac yn gymwys. Er bod y proffiliau cyllid yn cael eu haddasu o fewn y cyllidebau, nid oes yna unrhyw effeithiau posibl o ran cydraddoldebau.

**Carl Sargeant AC**
**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau**

| | | June 2011 | | | June 2011 | | | June 2011 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| e and Maintain Trunk Road Network (Domestic Routes) | 23,684 | 21,162 | -550 | 20,612 | 21,875 | -1,169 | 20,706 | 21,875 | -1,169 | 20,706 |
| e Public Transport (Rail) | 175,598 | 174,988 | -2,617 | 172,371 | 170,705 | 874 | 171,579 | 170,705 | 874 | 171,579 |
| e and Maintain Trunk Road Network (Domestic Routes) - Non Cash | 34,781 | 65,136 | -30,355 | 34,781 | 65,136 | -30,355 | 34,781 | 65,136 | -30,355 | 34,781 |
| **nprove Domestic Connectivity (Regional & National)** | **234,063** | **261,286** | **-33,522** | **227,764** | **257,716** | **-30,650** | **227,066** | **257,716** | **-30,650** | **227,066** |
| e International Connectivity | 40,577 | 39,927 | 0 | 39,927 | 39,904 | | 39,904 | 39,904 | | 39,904 |
| e International Connectivity - Non Cash | 73,910 | 105,104 | -31,194 | 73,910 | 105,104 | -31,194 | 73,910 | 105,104 | -31,194 | 73,910 |
| **nprove International Connectivity** | **114,487** | **145,031** | **-31,194** | **113,837** | **145,008** | **-31,194** | **113,814** | **145,008** | **-31,194** | **113,814** |
| o Sustainable Travel | 84,657 | 84,775 | 358 | 85,133 | 91,469 | -2,514 | 88,955 | 91,469 | -1,773 | 89,696 |
| **nprove Integrated Transport (Local)** | **84,657** | **84,775** | **358** | **85,133** | **91,469** | **-2,514** | **88,955** | **91,469** | **-1,773** | **89,696** |
| e Road Safety & Transport's impact on the Environment | 3,056 | 3,056 | 2,939 | 5,995 | 2,056 | 2,939 | 4,995 | 2,056 | 2,939 | 4,995 |
| **nprove Road Safety & Transport's Impact on the Environment** | **3,056** | **3,056** | **2,939** | **5,995** | **2,056** | **2,939** | **4,995** | **2,056** | **2,939** | **4,995** |
| **evenue - Transport** | **436,263** | **494,148** | **-61,419** | **432,729** | **496,249** | **-61,419** | **434,830** | **496,249** | **-60,678** | **435,571** |

**AL BUDGET - Departmental Expenditure Limit** — **£000's**

| **Actions** | **2011-12 Supplementary Budget June 2011** | **2012-13 Indicative Plans Supplementary Budget June 2011** | **2012-13 Changes** | **2012-13 Draft Budget New Plans** | **2013-14 Indicative Plans Supplementary Budget June 2011** | **2013-14 Changes** | **2013-14 Draft Budget New Plans** | **2014-15 Indicative Plans Supplementary Budget June 2011** | **2014-15 Changes** | **2014-15 Draft Budget New Plans** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| e and Maintain Trunk Road Network (Domestic Routes) | 56,569 | 46,010 | -8,400 | 37,610 | 32,765 | -5,575 | 27,190 | 32,765 | -5,575 | 27,190 |
| e Public Transport (Rail) | 27,105 | 27,660 | 19,482 | 47,142 | 23,085 | 4,341 | 27,426 | 23,085 | 4,341 | 27,426 |
| **nprove Domestic Connectivity (Regional & National)** | **83,674** | **73,670** | **11,082** | **84,752** | **55,850** | **-1,234** | **54,616** | **55,850** | **-1,234** | **54,616** |
| e International Connectivity | 59,088 | 56,029 | -3,342 | 52,687 | 83,836 | -1,322 | 82,514 | 83,836 | -1,322 | 82,514 |
| **nprove International Connectivity** | **59,088** | **56,029** | **-3,342** | **52,687** | **83,836** | **-1,322** | **82,514** | **83,836** | **-1,322** | **82,514** |
| o Sustainable Travel | 39,584 | 29,171 | | 29,171 | 23,757 | 3,500 | 27,257 | 23,757 | 3,500 | 27,257 |
| e and Maintain Local Roads Infrastructure | 24,646 | 32,899 | -4,801 | 28,098 | 6,317 | 1,995 | 8,312 | 6,317 | 1,995 | 8,312 |
| l Capital Funding - Roads | 16,483 | 15,332 | | 15,332 | 13,667 | | 13,667 | 13,667 | | 13,667 |
| **nprove Integrated Transport (Local)** | **80,713** | **77,402** | **-4,801** | **72,601** | **43,741** | **5,495** | **49,236** | **43,741** | **5,495** | **49,236** |
| e Road Safety & Transport's impact on the Environment | 10,922 | 10,922 | -2,939 | 7,983 | 10,922 | -2,939 | 7,983 | 10,922 | -2,939 | 7,983 |
| **nprove Road Safety & Transport's Impact on the Environment** | **10,922** | **10,922** | **-2,939** | **7,983** | **10,922** | **-2,939** | **7,983** | **10,922** | **-2,939** | **7,983** |
| | | | | | | | | | | |
| **apital - Transport** | **234,397** | **218,023** | **0** | **218,023** | **194,349** | **0** | **194,349** | **194,349** | **0** | **194,349** |



**UE BUDGET - Annually Managed Expenditure** — **£000's**

| **Actions** | **2011-12 Supplementary Budget June 2011** | **2012-13 Indicative Plans Supplementary Budget June 2011** | **2012-13 Changes** | **2012-13 Draft Budget New Plans** | **2013-14 Indicative Plans Supplementary Budget June 2011** | **2013-14 Changes** | **2013-14 Draft Budget New Plans** | **2014-15 Indicative Plans Supplementary Budget June 2011** | **2014-15 Changes** | **2014-15 Draft Budget New Plans** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | **0** | | 0 | 0 | | 0 |
| e and maintain the Trunk Road Network (Non Cash) | 24,138 | 0 | 43,597 | 43,597 | 40,703 | -35,730 | 4,973 | 40,703 | -5,751 | 34,952 |
| | | | | | | | | | | |
| **nprove Domestic Connectivity (Regional & National)** | **24,138** | **0** | **43,597** | **43,597** | **40,703** | **-35,730** | **4,973** | **40,703** | **-5,751** | **34,952** |
| | | | | | | | | | | |
| **ME - Transport** | **24,138** | **0** | **43,597** | **43,597** | **40,703** | **-35,730** | **4,973** | **40,703** | **-5,751** | **34,952** |

**£000's**

| **Government and Communities - Summary** | **2011-12 Supplementary Budget June 2011** | **2012-13 Indicative Plans Supplementary Budget June 2011** | **2012-13 Changes** | **2012-13 Draft Budget New Plans** | **2013-14 Indicative Plans Supplementary Budget June 2011** | **2013-14 Changes** | **2013-14 Draft Budget New Plans** | **2014-15 Indicative Plans Supplementary Budget June 2011** | **2014-15 Changes** | **2014-15 Draft Budget New Plans** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | |

**Pwyllgor Menter a Busnes 20 Hydref 2011**

**Busnes, Menter, Technoleg a Sgiliau**

**Cynigion Cyllideb Ddrafft y Cronfeydd Strwythurol ar gyfer 2012/13 i 2014/15**

## Cyflwyniad

1. Mae'r papur hwn yn rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor Menter a Busnes ar gynigion cyllideb ddrafft rhaglenni (a gyhoeddwyd ar 4 Hydref 2011) a luniwyd gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), yn rhinwedd ei rôl fel Awdurdod Rheoli ac Ardystio rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd.

2. Mae WEFO yn gyfrifol am reoli sut caiff rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd eu gweithredu, rhaglenni sy'n werth ychydig o dan £2 biliwn o gronfeydd yr UE dros y cyfnod saith mlynedd 2007–2013. Cyfanswm yr arian a fuddsoddir yw tua £3.2bn (gan gynnwys arian cyfatebol). Mae hyn yn cynnwys rhaglenni Cydgyfeirio Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a'r rhaglenni Cystadleurwydd llai yn y Dwyrain. Mae Cymru hefyd yn cymryd rhan mewn nifer o raglenni cydweithredu tiriogaethol, gan gynnwys rhaglen drawsffiniol rhwng Cymru ac Iwerddon a reolir gan Awdurdodau Iwerddon. Mae WEFO yn gyfrifol hefyd am reoli cau rhaglenni 2000–2006 ac am arwain sut y datblygir unrhyw raglenni ar gyfer 2014–2020.

3. Mae'r tabl ariannol cryno canlynol yn dangos yr effaith gyffredinol ar gyllideb sylfaenol WEFO ar gyfer rhaglenni:

| Gweithredu | Categori Gwariant | Cyllideb Atodol 2011/12 £'000 | Newid | Cyllideb Arfaethedig 2012/13 £'000 | Cynlluniau Dangosol 2013/14 £'000 | Cynlluniau Dangosol 2014/15 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| WEFO | Rheoli Gweithredu Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru | 1,522 | 0 | 1,522 | 1,522 | 1,522 |
| | **CYFANSWM** | **1,522** | **0** | **1,522** | **1,522** | **1,522** |

## Blaenoriaethau Strategol

4. Bydd WEFO yn parhau i ddatblygu, rheoli, monitro ac adrodd ar sut gweithredir rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yr UE yng Nghymru a helpu i sicrhau bod rhaglenni a phrosiectau Cronfeydd Strwythurol yr UE yn gydnaws â pholisïau a strategaethau Llywodraeth Cymru a'r UE.

**Perfformiad rhaglenni 2007–2013**

5. Bedair blynedd ar ôl dechrau'r rhaglenni, mae WEFO wedi ymrwymo £1.55 biliwn (81% o gyfanswm y cronfeydd UE sydd ar gael) i 236 o brosiectau, sef cyfanswm buddsoddiad o fwy na £3.1 biliwn yng Nghymru.

6. Dyma ffigurau'r ymrwymiad i'r rhaglenni:

| Rhaglen | Cyfanswm cost y prosiect (£m) | Cyfran (%) | Cronfeydd yr UE (£m) | Cyfran (%) |
|---|---|---|---|---|
| **Cydgyfeirio Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF)** | 1,676.9 | 90.0 | 522.7 | 76.0 |
| **Cystadleurwydd Cronfa Datblygu Rhanbarthol (ERDF)** | 146.6 | 108.0 | 34.9 | 72.0 |
| **Cydgyfeirio Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF)** | 1,168.1 | 105.0 | 530.9 | 89.0 |
| **Cystadleurwydd Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF)** | 150.2 | 111.0 | 47.2 | 98.0 |
| **Cyfanswm** | **3,141.8** | **97.0** | **1,552.7** | **81.0** |

7. Mae'r data (sydd hefyd ar gael yn www.wefo.cymru.gov.uk ) yn y tabl uchod ac mewn rhannau eraill o'r papur yn gywir ar 30 Medi 2011 oni nodir yn wahanol.

8. Mae lefel gyffredinol cronfeydd yr UE a ymrwymwyd hyd yma ar draws y pedair rhaglen yn cymharu'n dda iawn â'r pwynt cyfatebol yn rhaglenni 2000-2006. At hynny, gyda digon o brosiectau ar y gweill, rydym ar y trywydd iawn i ymrwymo 90% o gronfeydd yr UE erbyn diwedd Mawrth 2012.

9. Mae tua £760 miliwn (24%) o gyfanswm buddsoddiad y prosiect (gan gynnwys arian cyfatebol) yn cefnogi busnesau (gan gynnwys Ymchwil a Datblygu ac Arloesi, TGCh a Chyllid Busnes) ac mae £1.3bn (41%) yn helpu pobl i gael gwaith a gwella eu sgiliau. At hyn, mae dros £560m yn

helpu i adfywio cymunedau a £485m yn helpu i wella'r amgylchedd a thrafnidiaeth gynaliadwy.

10. Mae sefydliadau yng Nghymru yn cymryd rhan mewn 69 o brosiectau cydweithredu tiriogaethol (gan gynnwys rhaglen drawsffiniol Cymru/Iwerddon) sy'n werth tua £96m o ERDF (mae partneriaid Cymru yn elwa ar £29m o ERDF).

11. Mae manylion cyhoeddiadau diweddar am brosiectau ar gael ar wefan WEFO www.wefo.cymru.gov.uk

Yr hyn a gyflawnwyd gan brosiectau'r UE

12. Mae prosiectau'r UE eisoes wedi helpu 236,500 o bobl, ac mae 71,000 ohonynt wedi cael cymorth i ennill cymwysterau a bron i 29,000 i gael gwaith. Crëwyd dros 8,600 o swyddi (gros) a bron i 1,800 o fusnesau. Mae hyn yn seiliedig ar y ceisiadau am arian a gyflwynwyd (bob chwarter yn gyffredinol) gan brosiectau ac a awdurdodwyd gan WEFO. Bydd hyn yn cynyddu wrth i ragor o brosiectau fynd rhagddynt ac adrodd ar ganlyniadau i WEFO.

13. Mae WEFO yn disgwyl cyrraedd y targedau cyffredinol y cytunwyd arnynt gyda'r Comisiwn, a rhagori arnynt mewn rhai achosion. Bydd manteision y rhaglenni a'r prosiectau yn parhau ar ôl i'r Cronfeydd gael eu gwario – er enghraifft drwy gronfeydd cylchol (ee JEREMIE a JESSICA), neu drwy'r buddsoddiad hirdymor mewn pobl drwy hyfforddiant a datblygu sgiliau.

Gwariant rhaglenni

14. Mae cyfanswm y gwariant ar brosiectau'r UE yn fwy na £1bn (£478m - cronfeydd yr UE; 25% o gyfanswm dyraniad cronfeydd yr UE), ar sail ceisiadau a gyflwynwyd gan brosiectau ac a dalwyd gan WEFO. Ar sail y rhagolygon cyfredol, bydd hyn yn cynyddu i 30% erbyn diwedd 2011 ac i 34% erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol.

15. Cyrhaeddwyd pob un o dargedau'r Comisiwn o ran gwariant rhaglenni (N+2) gan gynnwys targedau diwedd blwyddyn galendr eleni ar gyfer y pedair rhaglen, er gwaethaf yr hinsawdd economaidd anodd a'r gyfradd gyfnewid amrywiol gyda'r Ewro.

Lefel yr ymgysylltiad ar draws sectorau

16. O gofio natur strategol gweithredu'r Rhaglenni, mae prosiectau a arweinir gan Lywodraeth Cymru yn gyfran sylweddol o'r prosiectau a gymeradwywyd hyd yma (94 o 236). Datblygwyd y prosiectau hyn mewn partneriaeth a chânt eu gweithredu drwy drefniadau caffael i raddau helaeth. Mae'r prosiectau eraill yn cael eu harwain gan sefydliadau eraill, gan gynnwys 54 o brosiectau Awdurdodau Lleol, 35 o'r trydydd sector, 10 o'r sector preifat a 28 o'r sector Addysg Uwch/Addysg Bellach.

17. Yn ogystal â phrif noddwyr neu gyd-noddwyr, neu rai sy'n elwa ar brosiectau, mae sectorau hefyd yn elwa fel gweithredwyr prosiectau, lle amcangyfrifir bod cyfanswm cost gweithgareddau caffael wrth weithredu prosiectau a gymeradwywyd yn rhyw £1bn. Mae prosiectau a gymeradwywyd sydd wedi cwblhau eu hymarferion caffael wedi dyfarnu contractau gwerth £630m i sefydliadau, £365m i'r sector preifat a £90m i'r trydydd sector.

**Cau rhaglenni 2000–2006**

18. Cyflwynwyd adroddiadau terfynol ar raglenni 2000–2006 i'r Comisiwn yn 2010; bydd y gweithdrefnau cau ar gyfer rhaglenni 2000–2006 yn parhau drwy gydol 2011/2012. Mae WEFO eisoes wedi derbyn cadarnhad gan y CE bod rhaglenni LEADER+ ac URBAN II yn cau yn ffurfiol.

19. Er na fyddwn yn gwybod beth fydd gwariant terfynol rhaglenni 2000–2006 nes bydd y gweithdrefnau cau rhwng Cymru a'r CE wedi'u cwblhau, rydym yn hyderus y bydd ein perfformiad yn sylweddol uwch na chyfartaledd y DU ac yn gosod Cymru ymhlith y rhanbarthau sy'n perfformio orau yn yr UE.

**Datblygu rhaglenni 2014–2020**

20. Mae'r paratoadau ar gyfer datblygu, mewn partneriaeth, unrhyw raglenni Ewropeaidd i Gymru ar y gweill a bydd yn flaenoriaeth allweddol i waith WEFO o hydref 2011 ymlaen. Amlinellodd y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd flaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran rhaglenni Ewropeaidd i'r Pwyllgor Menter a Busnes ar 22 Medi. Fel rhan o hyn, pwysleisiodd y Gweinidog yr angen am i raglenni'r Cronfeydd Strwythurol, Datblygu Gwledig a Physgodfeydd gydweithio'n agosach i helpu i weithredu Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru o fewn fframwaith strategaeth Ewrop 2020 ar gyfer twf ar sail gwybodaeth, sy'n gynaliadwy ac yn gynhwysol.

21. I helpu i roi cyngor i Lywodraeth Cymru ar sut gellir manteisio i'r eithaf ar raglenni Ewropeaidd yn y dyfodol er budd Cymru, mae Fforwm Partneriaeth Rhaglenni Ewropeaidd ar gyfer 2014-2020 wedi'i sefydlu, dan gadeiryddiaeth Mark Drakeford AC, Cadeirydd Pwyllgor Monitro Rhaglenni presennol Cymru Gyfan.

22. Cyfarfu'r Fforwm, sy'n cynnwys arbenigwyr o bob rhan o'r sectorau preifat a chyhoeddus a'r trydydd sector, am y tro cyntaf ar 27 Medi, lle cafodd yr aelodau wybodaeth am y cyd-destun economaidd ac o ran polisi ar gyfer datblygu rhaglenni newydd a'r cynlluniau ehangach ar gyfer gwaith partneriaeth. Bydd hyn yn golygu cyfnod o ystyried yn nes ymlaen yn y flwyddyn i roi cyfle i bartneriaid Cymru ddylanwadu ar ddatblygiad strategaeth y rhaglenni.

23. Ar 6 Hydref, cyhoeddodd y Comisiwn ei gynigion deddfwriaethol drafft ar gyfer Polisi Cydlyniant ar gyfer y cyfnod 2014-2020, sy'n nodi dechrau cyfnod o negodi manwl rhwng Aelod-wladwriaethau a'r CE. Byddwn yn ceisio sicrhau bod y DU, wrth negodi, yn rhoi ystyriaeth lawn i anghenion Cymru.

**Rheoli Cronfeydd Strwythurol**

24. Mae'r gyllideb yn rhoi arian cyfatebol i brosiectau Cymorth Technegol WEFO o dan raglenni 2007-13. Caiff ei defnyddio i fodloni gofynion rheoliadol WEFO o dan reoliadau'r CE i gynnal gweithgareddau fel gwerthuso rhaglenni, rhoi gwybodaeth a chyhoeddusrwydd, a threfniadau ar gyfer Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan.

25. Er bod rheoliadau'r CE yn caniatáu Cyngor Technegol hyd at 4% o werth cyffredinol y rhaglen, dim ond 1.5% o raglenni 2007-13 a ddefnyddiwyd gan WEFO i'r diben hwnnw. Yn sgil newid yn rhaglen Gydgyfeirio'r ERDF a gymeradwywyd gan y CE ym mis Mawrth 2011, trosglwyddwyd £10m mewn arbedion o Gymorth Technegol i Flaenoriaeth 5, Creu Cymunedau Cynaliadwy.

26. Er bod y rhaglenni cyfredol yn debyg, o ran lefel gwaith, i raglenni cyfnod 2000-2006, mae WEFO wedi lleihau ei staff o ryw 182 yn 2005 i 145 o fis Medi 2011. I hwyluso'r sefyllfa, mae'r systemau wedi'u gwella'n sylweddol, ac mae WEFO Ar-lein, sef system rheoli a thalu grantiau WEFO, wedi'i gydnabod gan y CE fel model i Aelod-wladwriaethau eraill, ac mae'n cael ei ddefnyddio fel meincnod i fesur pob system sy'n delio â chyllid strwythurol ar draws y CE.

27. Caiff Pwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru Gyfan a Gweinidogion wybodaeth reolaidd am hynt gwahanol flaenoriaethau'r rhaglenni. Ceir mwy o fanylion am berfformiad a chanlyniadau'r Rhaglenni ar wefan WEFO www.wefo.cymru.gov.uk.

**Y Pwyllgor Menter a Busnes**
**22 Medi 2011; 13:00**

1.1 Trafododd y Pwyllgor y cylch gorchwyl a ganlyn ar gyfer ei ymchwiliad i gaffael, a chytunodd arno.

1.2 Cafodd yr aelodau a ganlyn eu hethol gan y Pwyllgor i'r grŵp gorchwyl a gorffen ynghylch caffael:

Julie James(Cadeirydd)
David Rees
Leanne Wood
Eluned Parrott
Byron Davies

1.3 Bydd y grŵp gorchwyl a gorffen yn cynnal cyfarfodydd anffurfiol.